# Adroddiad ar

# Gylch Meithrin Pontyberem

**Ysgol Gynradd Pontyberem**
**Heol y Felin**
**Pontyberem**
**Llanelli**
**Sir GaerfyrddinSA15 5EB**

**Dyddiad yr arolygiad:  Rhagfyr 2024**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**a**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Chylch Meithrin Pontyberem

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Cylch Meithrin Pontyberem |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal Dydd Llawn |
| Person(au) cofrestredig | Cylch Meithrin Pontyberem |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Anita Evans |
| Person â gofal | Claire Thomas |
| Nifer y lleoedd | 26 |
| Amrediad oedran y plant | 2-3 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 mlwydd oed | 7 |
| Nifer y plant sy'n cael eu hariannu ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau / amseroedd agor | 09:00 – 15:00 Dydd Llun i Ddydd Gwener |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Nac oes |
| Iaith y lleoliad | Cymraeg |
| A yw'r Cynnig Gofal Plant ar gael yn y lleoliad hwn? | Ydy |
| Cynnig y Gymraeg yn Rhagweithiol | Mae'r gwasanaeth hwn yn rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |
| Dyddiad arolygiad blaenorol AGC | Arolygiad cyntaf ers ailgofrestru |
| Dyddiad arolygiad blaenorol Estyn | Rhagfyr 2018 |
| Dyddiadau'r ymweliad(au) arolygu hwn/hyn | 03/12/2024 |
| Manon Mainwaring oedd y person â gofal dros dro yn ystod yr arolygiad | |

## Crynodeb

| Thema | Barn |
|---|---|
| **Lles** | **Da** |
| **Dysgu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Gofal a datblygiad** | **Da** |
| **Addysgu ac asesu**<br>**(mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir)** | **Da** |
| **Yr amgylchedd** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

## Diffyg cydymffurfio

Ni chanfyddwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn ystod yr arolygiad hwn.

## Argymhellion

A1 Mireinio’r ddarpariaeth er mwyn datblygu annibyniaeth y plant ymhellach

## Beth sy’n digwydd nesaf

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy’n dangos sut y bydd yn mynd i’r afael â’r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

**Lles: Da**

Mae bron bob plentyn yn mwynhau ac yn hapus wrth chwarae ac maent yn rhyngweithio’n arbennig o dda gydag ymarferwyr ac ymwelwyr. Mae’r rhan fwyaf yn awyddus iawn i siarad ag oedolion ac yn frwdfrydig wrth gydweithio a siarad â'i gilydd. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o blant yn mynegi eu teimladau’n hyderus.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn gwneud dewisiadau a phenderfyniadau effeithiol ynglŷn â ble a gyda phwy yr hoffent chwarae. Maent yn cyd-chwarae’n dda ac yn mwynhau cwmni ei gilydd wrth gymdeithasu o gwmpas y lleoliad. Mae’r rhan fwyaf o blant yn chwilio am eu ffrindiau ac yn eu galw draw i ddod i chwarae gyda nhw neu i’w helpu, er enghraifft wrth adeiladu trac trenau. Maent yn dangos dyfalbarhad yn eu chwarae a’u dysgu ac maent yn chwarae gydag adnoddau sy'n eu diddori am gyfnodau estynedig. Er enghraifft, mae ychydig ohonynt yn mwynhau defnyddio’r bwrdd gwyn rhyngweithiol gan ddewis lliwiau gwahanol i greu patrymau ac ymarfer eu medrau ysgrifennu cynnar.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn llawn bywyd ac yn barod i chwarae a dysgu. Mae bron bob plentyn yn hapus ac yn gyfforddus yng ngofal yr ymarferwyr. Mae’r rhan fwyaf ohonynt yn deall gweithdrefnau'r lleoliad yn dda ac yn deall pwysigrwydd golchi dwylo cyn cael byrbryd ac ar ôl dod i mewn o chwarae tu allan. Maent yn deall bod ymarferwyr yn gwrando ar eu dymuniadau a'u pryderon ac maent yn hyderus i fynd at ymarferwyr am gymorth.

Mae’r rhan fwyaf o blant yn deall ac yn cadw at reolau ymddygiad y lleoliad yn dda. Mae bron bob plentyn yn cyfathrebu’n gwrtais â phlant eraill, ymarferwyr ac ymwelwyr. Maent yn cydweithio’n hapus ac yn rhannu adnoddau gyda chymorth oedolyn yn llwyddiannus. Maent yn dysgu sut i aros a chymryd eu tro yn amyneddgar.

Yn gyffredinol, mae gan y rhan fwyaf o blant fedrau annibynnol da o ran gweithdrefnau, gan gynnwys golchi eu dwylo yn effeithiol a thynnu a gwisgo eu cotiau a'u rhoi ar y bachyn. Yn ogystal, maent yn hunangofrestru ar ddechrau'r sesiwn.

Mae'r rhan fwyaf o blant yn mwynhau dysgu medrau newydd wrth iddynt arbrofi ag amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae diddorol, y tu mewn a thu allan. Mae'r rhan fwyaf o blant yn ymfalchïo bod eu gwaith celf yn cael ei arddangos mewn gwahanol fannau ar draws y lleoliad. Mae hyn yn creu naws a theimlad o hunan-werth a pherthyn ymysg y plant.

**Dysgu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae bron bob un plentyn yn gwneud cynnydd da o'u mannau cychwyn ac yn datblygu ystod o fedrau yn effeithiol wrth chwarae a dysgu. Maent yn gwrando ar gyfarwyddiadau'n astud ac, o ganlyniad, yn dod i adnabod gweithdrefnau'r lleoliad yn llwyddiannus. Er enghraifft, maent yn gwybod mai cyfrifoldeb pawb yw tacluso ar ddiwedd sesiwn ac i olchi eu dwylo cyn snac. Mae llawer ohonynt yn datblygu medrau darllen cynnar yn briodol. Maent yn dewis llyfrau o'r gornel ddarllen o'u gwirfodd ac yn pori drwyddynt yn hamddenol, gan bwyntio at y lluniau a dweud eu stori eu hunain. Mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar yn llwyddiannus yn unol â'u cam datblygiad. Maent yn creu patrymau mewn rhew a thywod ac yn creu marciau ar bapur i gyfleu geiriau, er enghraifft wrth lunio rhestr siopa yn y siop fach. Mae llawer o blant yn gwneud cynnydd addas yn eu medrau llafar. Maent yn cynyddu eu geirfa yn gyson gan ei defnyddio mewn cyd-destun perthnasol, er enghraifft wrth ofyn am lysiau penodol i'w rhoi mewn cawl. Mae'r rhan fwyaf yn mwynhau canu caneuon a rhigymau sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu medrau a'u datblygiad llafar.

Mae llawer o blant yn datblygu medrau rhifedd cadarn ac yn defnyddio iaith fathemategol gywir wrth gyfri brics hyd at 20 neu wrth greu ac enwi siapiau 2D mewn tywod. Maent yn dangos gafael gynyddol ar iaith fathemategol ac yn cymhwyso eu gwybodaeth wrth drafod patrymau syml a gwrthrychau sy'n fwy ac yn llai na'i gilydd.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n effeithiol. Maent yn ymdrin â gwrthrychau mân fel hadau pwmpen a pheli addurno drwy ddefnyddio gefeiliau yn fanwl gywir. Maent yn creu marciau yn ofalus gan drin brwsys paent a phensiliau yn gywir. Yn ogystal, mae'r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau corfforol mawr yn llwyddiannus drwy deithio ar hyd gwrthrychau mawr yn yr ardal tu allan yn feistrolgar.

Mae bron bob plentyn yn datblygu eu medrau digidol yn llwyddiannus ac yn deall bod offer digidol yn cael effaith ar eu bywydau bob dydd. Maent yn defnyddio tafol ddigidol wrth goginio yn y gegin fwd ac yn chwarae gyda chamerâu digidol yn bwrpasol.

Mae llawer o blant yn datblygu eu medrau creadigol yn fedrus, er enghraifft wrth ddewis pa addurniadau i'w gosod ar gerdyn Nadolig. Maent yn taenu glud gwlyb yn ofalus, yn gosod addurniadau yn bwrpasol ac yn tywallt gliter gyda rheolaeth fanwl. Mae llawer ohonynt yn mwynhau defnyddio'r offer taro a pherfformio ar y llwyfan fach. Mae'r mwyafrif o blant yn cydweithio â'i gilydd ar dasgau ac yn dangos

dyfalbarhad wrth ddatrys problemau, er enghraifft trwy helpu ei gilydd i adeiladu tŵr uchel o frics ysgafn.

**Gofal a datblygiad: Da**

Mae ymarferwyr yn dilyn systemau trylwyr a chadarn i sicrhau iechyd a diogelwch y plant. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'u cyfrifoldebau o ran diogelu plant. Maent yn cadw cofnodion cywir am bryderon, damweiniau, digwyddiadau ac unrhyw wybodaeth berthnasol yn ddiogel. Mae ymarferwyr wedi cael ystod o hyfforddiant amddiffyn plant priodol a chyfredol sy'n cefnogi eu gwaith yn dda. Maent yn ymwybodol o beth i'w wneud gydag unrhyw broblemau neu bryderon sy'n codi. Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae ymarferwyr wedi mynychu hyfforddiant cymorth cyntaf yn ddiweddar, sy'n sicrhau dealltwriaeth gadarn o'r prosesau i'w dilyn pe bai argyfwng yn codi. Maent yn dilyn gweithdrefnau ac arferion hylendid yn effeithiol, gan gynnwys annog y plant i olchi eu dwylo ar yr amseroedd priodol yn annibynnol. Mae'r ymarferwyr yn hybu ymwybyddiaeth y plant o fwyta ac yfed yn iach, gan ddarparu byrbrydau iach yn ddyddiol.

Mae'r ymarferwyr yn rhyngweithio â'r plant yn effeithiol wrth iddynt chwarae gyda nhw yn y gwahanol ardaloedd. Maent yn eu canmol yn gyson, a hynny'n dylanwadu'n bositif ar eu hunanhyder a'u mwynhad o fod yn y lleoliad. Mae'r ymarferwyr yn meithrin perthynas hyfryd a naturiol â'r plant ac yn cynnal sgyrsiau rheolaidd â nhw, er enghraifft wrth drafod y Nadolig a'u hymweliadau i weld Sion Corn. Mae'r ymarferwyr yn rheoli ymddygiad yn dda ac maent yn siarad â'r plant yn synhwyrol a phositif, ac mewn ffyrdd y maent yn eu deall. Maent yn modelu ymddygiad effeithiol ac yn dangos parch cyson tuag at y plant a'i gilydd. Yn ystod amser byrbryd, mae'r ymarferwyr yn darparu cyfleoedd i'r plant gymdeithasu â'r ymarferwyr a'u cyfoedion.

Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth dda am anghenion a hoffterau bob plentyn. Maent yn ymwybodol o gamau datblygu'r plant ac yn gweithredu'n effeithiol ar y camau nesaf yn eu datblygiad. Mae'r ymarferwyr yn dilyn prosesau clir er mwyn adnabod a chyfeirio unrhyw blant y maen nhw'n pryderu am eu datblygiad. Maent yn gweithio'n agos gydag asiantaethau allanol megis therapydd lleferedd, yr ymwelydd iechyd a'r awdurdod lleol er mwyn sicrhau bod plant yn cael eu cefnogi'n gyson. O ganlyniad, mae gweithdrefnau anghenion dysgu ychwanegol (ADY) y lleoliad yn gadarn ac yn cefnogi datblygiad plant yn effeithiol.

**Addysgu ac asesu (mae hyn yn berthnasol i blant tair a phedair oed yn unig nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir): Da**

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio a darparu ystod eang o brofiadau dysgu amrywiol sy'n diwallu anghenion bron bob plentyn yn llwyddiannus. Maent yn sicrhau cyfleoedd rheolaidd i blant wneud dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu ac maent yn darparu amrediad eang o adnoddau sy'n sbarduno dychymyg y plant yn gyson. Mae'r ymarferwyr yn adnabod y plant yn dda ac yn addasu gweithgareddau i ymateb i'w hanghenion yn effeithiol. Mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ffordd mae plant yn dysgu drwy chwarae ac arbrofi.

Mae ymarferwyr yn meithrin perthynas hyfryd â'r plant, ac yn eu cymell i ddatblygu ystod eang o fedrau yn bwrpasol. Maent yn aml yn rhyngweithio â'r plant yn yr ardaloedd er mwyn ehangu eu medrau, neu'n eu denu'n feistrolgar i chwarae mewn ardaloedd penodol. Mae ymarferwyr yn cefnogi'r dysgu yn effeithiol wrth chwarae ochr yn ochr â'r plant, ac ar y cyfan, yn ymyrryd yn amserol ac yn effeithiol i atgyfnerthu'r dysgu. Fodd bynnag, mae ymarferwyr yn ymyrryd yn ormodol weithiau yn chwarae'r plant sy'n eu hatal rhag cymhwyso eu medrau annibynnol yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn gwneud defnydd da o asesiadau ac arsylwadau manwl i gynllunio'r camau nesaf yn nysgu'r plant.

Mae'r ymarferwyr yn paratoi ardaloedd dysgu a chwarae diddorol a phwrpasol tu fewn a thu allan, sy'n galluogi plant i ymarfer a chymhwyso eu medrau yn barhaus. Maent yn paratoi ardal ddarllen sy'n denu'r plant i ddewis llyfrau yn ddigymell. Wrth eistedd gyda'r plant a'u holi'n fedrus am y lluniau a'r stori, mae ymarferwyr yn atgyfnerthu eu dealltwriaeth ac yn creu darllenwyr cynnar sy'n dwlu ar lyfrau. Maent yn modelu iaith yn barhaus ac yn gwneud defnydd effeithiol o ganeuon i ddatblygu medrau plant. Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod eang o gyfleoedd i blant ddatblygu eu medrau ysgrifennu cynnar ac i greu marciau. Mae clipfyrddau a phensiliau mewn sawl ardal, mae byrddau gwyn a pennau ffelt ar gael, ac mae patrymau i'w copïo yn y twba tywod a rhew. O ganlyniad, mae medrau ysgrifennu cynnar y rhan fwyaf o blant yn datblygu'n dda. Yn ogystal, mae'r ymarferwyr yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatblygu'u medrau modur mân, er enghraifft wrth beintio, dylino toes ac agor potiau bach o sbeis wrth goginio. Maent yn sicrhau bod y plant yn cael cyfleoedd buddiol i ddatblygu eu medrau modur mawr yn llwyddiannus, er enghraifft wrth eu hannog i reidio beiciau a symud ar hyd llwybrau cydbwyso.

Mae'r ymarferwyr yn hyrwyddo ymwybyddiaeth y plant o'u hunaniaeth Gymreig yn addas drwy ddarparu gweithgareddau ac adnoddau priodol wrth ddathlu diwrnodau pwysig i'r Cymry. Maent hefyd yn canu caneuon a rhigymau traddodiadol yn rheolaidd. Yn gyffredinol, mae ymarferwyr yn darparu cyfleoedd addas i blant ddysgu am ychydig o ddiwylliannau eraill drwy flasu bwydydd a gwisgo dillad traddodiadol o wahanol wledydd. Maent yn sicrhau bod adnoddau pwrpasol ar gael sy'n cynrychioli pobl o gefndiroedd gwahanol, ond prin yw'r cyfleoedd i blant ddysgu am gydraddoldeb.

Mae'r ymarferwyr yn cynllunio profiadau buddiol i ddatblygu medrau ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant. Maent yn ymyrryd yn briodol i annog plant i ddeall rheolau ymddygiad syml megis rhannu teganau a chymryd tro. Maent yn gwneud defnydd da o'u hardal leol trwy ymweld â'r parc er mwyn arsylwi a gwerthfawrogi byd natur ac wrth brynu adnoddau yn y siop, fel llysiau i wneud cawl. Golyga hyn fod gan y plant ddealltwriaeth gynyddol o'u cymuned a'u milltir sgwâr.

Mae'r ymarferwyr yn darparu gwybodaeth fuddiol i rieni a gofalwyr am gyflawniadau eu plant. Gwneir hyn trwy gyfryngau cymdeithasol, trafodaethau llafar a chyfarfodydd mwy ffurfiol ar ddechrau a diwedd cyfnod y plant yn y Cylch.

## Yr amgylchedd: Da

Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod y lleoliad yn ddiogel. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod prif ddrws a'r giât sy'n arwain allan i'r ardal allanol ar glo. O ganlyniad, ni all

ymwelwyr fynd at unrhyw ran o'r lleoliad oni bai bod ymarferwr yn rhoi mynediad iddynt.

Mae'r ymarferwyr yn wyliadwrus wrth oruchwylio plant yn ofalus er mwyn sicrhau eu diogelwch. Maent yn sicrhau bod y plant yn ddiogel trwy weithredu'n effeithiol ar ystod o bolisïau clir a chynhwysfawr. Maent yn adnabod a chofnodi risgiau yn effeithiol ar gyfer y lleoliad a gweithgareddau amrywiol, gan gynnwys mynd am dro o gwmpas y pentref, mynd i'r parc lleol ac i siop y pentref i brynu ffrwythau a llysiau.

Mae'r arweinwyr yn ymateb yn brydlon i faterion o ddiogelwch y plant ac i unrhyw achos sy'n codi. Er enghraifft, maent yn monitro ac ymarfer driliau tân yn gyson er mwyn sicrhau bod y plant yn gyfarwydd â'r trefniadau i'w dilyn pe bai rheswm iddynt adael yr adeilad ar frys. Mae'r ymarferwyr yn cadw cofrestr o bob plentyn ac ymwelwyr sy'n mynychu'r sesiynau ac yn cofnodi eu hamseroedd cyrraedd a gadael yn drwyadl.

Mae'r arweinwyr yn sicrhau amgylchedd dysgu ac ardaloedd chwarae pwrpasol sy'n cynnig cyfleoedd gwerthfawr i blant gydweithio a chyfathrebu tu fewn a thu allan. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod yr amgylchedd chwarae, y cyfarpar, y teganau a'r adnoddau yn addas ar gyfer y plant. Mae'r arweinwyr yn trefnu'r amgylchedd er mwyn sicrhau bod plant yn gallu symud o gwmpas yr ystafell ac i lifo'n rhydd rhwng y tu fewn a thu allan. Mae hyn yn galluogi'r plant i wneud penderfyniadau effeithiol am eu chwarae a'u dysgu.

Mae'r lleoliad yn daclus ac yn ddeniadol ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda. Mae'r ymarferwyr yn canolbwyntio ar greu amgylchedd naturiol er mwyn creu naws glòs ac ymlaciol. Maent yn sicrhau bod yr adnoddau'n sbarduno chwilfrydedd y plant yn effeithiol. Mae'r adnoddau'n cael eu cadw ar lefel ymarferol i'r plant, sy'n sicrhau eu bod yn gallu eu cyrraedd yn hawdd.

Mae'r ymarferwyr yn defnyddio'r arddangosfeydd yn bwrpasol i sicrhau bod plant yn datblygu ymwybyddiaeth o berthyn yn llwyddiannus. Gwneir hyn trwy arddangos eu gwaith celf ar arddangosfeydd wal ac ar ffenestri'r ystafell. Er enghraifft, maent yn arddangos esiamplau o faneri Cymru'r plant, hunanbortreadau a chymeriadau stori'r geni.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth: Da**

Mae'r arweinydd dros dro yn arwain trwy esiampl ac yn llwyddo i greu awyrgylch ac ethos gofalgar, cyfeillgar a chynnes. Mae'r disgwyliadau uchel sydd ganddi yn sicrhau bod pawb yn cydweithio'n effeithiol iawn fel tîm. Mae ganddi weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechreuad gorau posibl, mewn awyrgylch gynhwysol lle maent yn cael eu trwytho yn y Gymraeg ac yn niwylliant Cymru. Gyda chefnogaeth ei chydweithwyr, mae'r arweinydd yn gwireddu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus. Mae hi'n sicrhau bod y datganiad o ddiben yn gyfredol ac yn adlewyrchu'r gwasanaeth yn llwyddiannus. Mae'r arweinydd yn ymroddgar iawn i'w gwaith, ac mae'r tîm cyfan yn cydweithio'n effeithiol er lles y plant yn eu gofal.

Mae'r arweinwyr yn cyflawni eu dyletswyddau rheolaethol yn llwyddiannus, gan gynnwys dyrannu'r cyllid yn synhwyrol ac yn gwario'r grant datblygu disgyblion

blynyddoedd cynnar yn effeithiol. Mae ganddynt berthynas gadarn ag ystod o rhanddeiliaid sy’n eu cefnogi’n effeithiol trwy ddarparu polisïau a hyfforddiant perthnasol. Mae’r arweinwyr yn sicrhau trefniadau recriwtio diogel ac yn diweddaru gwiriadau staff yn briodol. Mae’r arweinwyr yn cynnal gweithdrefnau gwerthuso perfformiad staff yn rheolaidd, gan ddarparu cefnogaeth a hyfforddiant yn unol ag anghenion a diddordebau staff unigol.

Gyda chymorth, mae’r arweinwyr yn cynnal amrediad effeithiol o weithgareddau hunanwerthuso. Maent yn gwrando ar fewnbwn rhieni yn rheolaidd wrth ystyried eu perfformiad ac maent yn adnabod cryfderau’r ddarpariaeth a’r elfennau sydd angen eu datblygu ymhellach yn gywir. Mae’r blaenoriaethau gwella wedi eu rhannu’n gamau synhwyrol, ac yn cael eu gwerthuso’n rheolaidd.

Mae gan arweinwyr ac ymarferwyr berthynas agos â rhieni a gofalwyr, sy’n gwerthfawrogi’r cyswllt rheolaidd ar ddechrau a diwedd pob sesiwn a’r wybodaeth a rennir dros gyfryngau cymdeithasol. Mae’r arweinwyr yn trefnu ystod o ymwelwyr i ymweld â’r lleoliad er mwyn hybu gofal a lles y plant. Er enghraifft, mae aelod o’r frigâd dân yn addysgu’r plant am beryglon tân a’r gwasanaeth deintyddol cymunedol yn sôn wrthynt am bwysigrwydd brwsio dannedd yn rheolaidd. Mae perthynas addas ganddynt â’r ysgol sy’n rhannu’r un safle, gyda’r plant yn ymweld â’r dosbarth derbyn teirgwaith cyn dechrau yn yr ysgol gynradd er mwyn eu paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn teimlo’n rhan o’u cymuned leol. Maent yn cerdded i’r parc a’r pentref yn aml, er enghraifft wrth fynd â bwydydd a gasglwyd ganddynt i’r banc bwyd yn neuadd y pentref.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan AGC ac Estyn (http://careinspectorate.wales) (www.estyn.llyw.cymru)

Mae AGC ac Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa bedwar pwynt ar gyfer barnau:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arferion cryf iawn, cynaledig |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig y mae angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Cryfderau yn gorbwyso gwendidau ond mae angen gwelliannau |
| **Gwael** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau ac mae angen gwelliannau sylweddol |

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2025: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 07/02/2025